**Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

17 Hydref 2008

Annwyl Gydweithiwr

**Ymgynghoriad – Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol**

Sefydlwyd Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y pwyllgor') ar 1 Hydref 2008 i ystyried egwyddorion cyffredinol Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)('y Mesur arfaethedig') a chyflwyno adroddiad arnynt. Gallwch ddod o hyd i fanylion y Mesur arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-lg.htm

Hoffai'r pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w gynorthwyo â'i waith craffu ar gynigion y Llywodraeth. Yn benodol, byddai'r pwyllgor yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau a nodir yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch cyflwyniad i legislationoffice@wales.gsi.gov.uk a rhowch *Ymgynghoriad y Pwyllgor Llywodraeth Leol/ Consultation LG Committee* fel pennawd i'r e-bost. Os byddai'n well gennych anfon eich cyflwyniad ar ffurf copi caled, anfonwch hwn at Ruth Hatton, Dirprwy Glerc y Cynulliad, y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

**Dylai cyflwyniadau gyrraedd y swyddfa erbyn dydd Gwener 28 Tachwedd 2008. Efallai na fydd yn bosibl ystyried ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.**

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y **broses ddeddfwriaethol** yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance/bus-legislation-guidance-measures.htm

**Ffon / Tel: 029 2089 8008**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**


Wrth baratoi eich cyflwyniad, ystyriwch y pwyntiau a ganlyn:

- dylai eich ymateb fod mor gryno â phosibl. Defnyddiwch y pennawd uchod fel cyfeirnod i'ch ymateb;
- bydd y Cynulliad Cenedlaethol fel arfer yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt ac efallai y bydd Aelodau'r Cynulliad yn eu trafod yn ystod cyfarfodydd pwyllgor hefyd. **Os nad ydych am i ni gyhoeddi eich ymateb neu eich enw, mae'n bwysig eich bod yn nodi hyn yn glir yn eich cyflwyniad;**
- nodwch os ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn;
- nodwch a fyddech yn fodlon rhoi tystiolaeth ar lafar i'r pwyllgor.

Mae'r pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig yn ystod tymor yr hydref.

Os oes gennych ragor o ymholiadau, cysylltwch â Gareth Williams, Clerc y pwyllgor ar 029 2089 8008 neu Ruth Hatton, y Dirprwy Glerc ar 029 2089 8019.

Yn gywir



**Janice Gregory AC**
**Cadeirydd y pwyllgor**

**Ffon / Tel: 029 2089 8008**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**